# Agenda - Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Lleoliad:

**Ystafelloedd Bwyllgora 1 a 2**

Dyddiad: Dydd Mercher, 1 Mawrth 2023

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Manon George**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddTai@senedd.cymru

## Rhag-gyfarfod (09.15 - 09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Diogelwch adeiladau - sesiwn dystiolaeth 1

(09.30 - 10.30) (Tudalennau 1 - 11)

Mark Thomas - Celestia, Caerdydd; Aelod o'r Welsh Cladiators

Robert Nicholls - Altamar, Abertawe; Sylfaenydd grŵp y Cladiators yn Abertawe ac Aelod o'r Welsh Cladiators

Geoff Spight - Altamar, Abertawe; Aelod o'r Welsh Cladiators

Gareth Wilson - Lesddeiliad, Celestia

## Egwyl (10.30 - 10.45)

## 3 Diogelwch adeiladau - sesiwn dystiolaeth 2

(10.45 - 11.45)

Sarah Rennie - Cyd-sylfaenydd, CLADDAG: Leaseholder Disability Action Group

Georgie Hulme - Cyd-sylfaenydd, CLADDAG: Leaseholder Disability Action Group

Megan Thomas - Anabledd Cymru

## 4 Papurau i'w nodi

(Tudalen 12)

4.1 **Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid mewn perthynas â chraffu ar oblygiadau ariannol Biliau**

(Tudalennau 13 - 14)

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

## 6 Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitemau 2 a 3

(11.45 - 12.00)

## 7 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddarparu cartrefi i ffoaduriaid o Wcráin

(12.00 - 12.10) (Tudalennau 15 - 26)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 4

**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

**1 Mawrth 2023 – clawr y papurau i'w nodi**

| **Rhif y papur** | **Mater** | **Oddi wrth** | **Gweithredu** |
|---|---|---|---|
| Papur 1 | Ystyried goblygiadau ariannol Biliau gan y Senedd | Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid | I'w nodi |

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

15 Chwefror 2023

Annwyl Peredur,

**Craffu ar oblygiadau ariannol Biliau**

Yn dilyn eich llythyr dyddiedig 19 Rhagfyr 2022 at y Prif Weinidog ynglŷn â chraffu ar oblygiadau ariannol Biliau'r Llywodraeth, rwyf wedi ystyried cais pellach y Pwyllgor Cyllid.

Byddaf yn rhoi ymrwymiad y bydd pob un o Weinidogion Cymru yn ymdrechu i ymateb i Adroddiad Cam 1 y Pwyllgor Cyllid ar gyfer Biliau'r Senedd cyn y cynhelir y ddadl Egwyddorion Cyffredinol ar y Bil hwnnw.

Fodd bynnag, dylai'r Pwyllgor Cyllid nodi wrth roi'r ymrwymiad hwn, bydd achosion yn codi pan na fydd y manylion y mae'r Pwyllgor yn gofyn amdanynt ar gael yn hawdd o fewn yr amser hwnnw.

Mae'r Llywodraeth yn parhau i ddilyn gofynion Rheolau Sefydlog y Senedd sy'n pennu mai nod y penderfyniad ariannol yw ceisio cytundeb ar oblygiadau ariannol unrhyw Fil nid fel y'i cyflwynwyd, ond fel y'i diwygiwyd ar ôl cwblhau'r broses graffu. At hynny, bydd Gweinidogion Cymru yn parhau i roi manylion i'r Pwyllgor Cyllid a'r pwyllgorau sy'n craffu ar bolisi pan fo datblygiadau wedi bod neu ddiwygiadau wedi cael eu gwneud sy'n arwain at newidiadau sylweddol i oblygiadau ariannol pob Bil.

Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ystyried ymhellach unrhyw oblygiadau sy'n deillio o symud y ddadl penderfyniad ariannol i wythnos ar ôl y ddadl Egwyddorion Cyffredinol, a'r effaith ar y rhaglen ddeddfwriaethol yn y dyfodol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf wedi anfon copi o'ch llythyr ynghyd â'r ymateb hwn at bob un o Weinidogion Cymru. Anfonir yr ymateb hwn at y Pwyllgor Busnes a Chadeiryddion y Pwyllgorau Polisi hefyd.

Yn gywir,

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon